Comisiynydd Heddlu a
Throsedd Gogledd Cymru

# Digwyddiad Trydydd Sector

19 Tachwedd 2020








## Adroddiad Ôl-ddigwyddiad

SWYDDFA **COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD** GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE **POLICE & CRIME COMMISSIONER** NORTH WALES

# Cynnwys


3 Digwyddiad

4 Cyflwyniadau - Y Comisiynydd Heddlu a Throsedd Arfon Jones

6 Cyflwyniadau - Diane Jones Swyddog Comisiynu SCHTh

7 Gaynor McKeown, DASU Gogledd Cymru a Gwyneth Williams Gorwel – Cytundeb Cynghori Annibynnol ar Gam-drin Domestig Rhanbarthol

8 Anna Baker, Rheolwr Checkpoint Cymru

9 Jim Henton a Peter Moorhouse, Dechrau Newydd

10 Sesiwn Holi ac Ateb

13 Atodiad A – Sefydliadau yn Bresennol

14 Atodiad B – Cyfryngau Cymdeithasol





# Digwyddiad

Ar 19 Tachwedd 2020 fe wnaeth y Comisiynydd Heddlu a Throsedd gynnal ei Ddigwyddiad Ymgysylltiad y Trydydd Sector blynyddol ar-lein cyntaf i ymgysylltu ar y cyd gyda sefydliadau o'r sector gwasanaethau gwirfoddol a chymunedol. Oherwydd y pandemig coronafeirws parhaus roedd y digwyddiad ychydig yn wahanol eleni ac fe'i cynhaliwyd fel Cynhadledd Zoom gyda chynrychiolwyr o'r trydydd sector yn gwylio'r digwyddiad yn rhithiol gan ymgysylltu drwy sesiwn holi ac ateb. Prif ddiben y digwyddiad oedd ymgysylltu gyda rhanddeiliaid a cheisio eu hadborth ar flaenoriaethau plismona'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a rhoi trosolwg o sut mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi cefnogi gwasanaethau drwy gydol Pandemig Covid 19.

Cynhaliwyd y digwyddiad gyda 49 yn bresennol, yn cynrychioli 29 sefydliad lleol a rhanbarthol. Mae Atodiad A yn dangos rhestr o'r sefydliadau a fynychodd y gynhadledd.

Diben yr adroddiad hwn yw rhoi adborth i gyfranwyr am y prif negeseuon a'r cwestiynau a godwyd a sut y bydd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn gweithredu ar y sylwadau hyn.





# Cyflwyniadau

Yn ystod y digwyddiad cyflwynwyd nifer o siaradwyr allweddol yn cynnwys y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a nifer o sefydliadau Trydydd Sector.

## Y Comisiynydd Heddlu a Throsedd Arfon Jones

Agorodd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd (CHTh) y digwyddiad a diolchodd y rhai a oedd yn bresennol am gefnogi'r gynhadledd unwaith eto eleni. Pwysleisiodd y CHTh bod 2020 wedi bod yn flwyddyn ryfeddol am nifer o resymau. Ond er gwaethaf yr heriau mae'n falch o sut mae gwasanaethau wedi addasu i'r ffyrdd newydd o weithio a'r gwaith sydd wedi ei gyflawni dros y flwyddyn ddiwethaf. Cydnabu'r CHTh ymdrechion gwasanaethau'r trydydd sector yn lleihau effaith y pandemig ar bobl fregus ar draws y rhanbarth.

Yn ychwanegol, talodd y CHTh deyrnged i'r swyddogion, staff, swyddogion gwirfoddol a gwirfoddolwyr Heddlu Gogledd Cymru sydd wedi ymateb mor gadarnhaol i'r amgylchiadau rhyfeddol hyn.

Er mwyn ymateb i'r argyfwng ac i gyflawni ei gyfrifoldebau datblygodd y CHTh gynllun ymateb i Covid 19 yn cyflwyno ei 5 blaenoriaeth sy'n cynnwys;

1. Sicrhau bod gan y Prif Gwnstabl adnoddau digonol i ymateb i'r argyfwng
2. Sicrhau, ar ran ein cymunedau, bod yr heddlu yn ymateb mewn ffyrdd sy'n angenrheidiol, digonol, cymesur ac yn foesol (yn dwyn i gyfrif)
3. Hwyluso partneriaeth effeithiol ymhlith asiantaethau a grwpiau yn gweithio ym maes diogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol

4. Gwasanaethau comisiynu, yn enwedig ar gyfer dioddefwyr trosedd gan gynnig grantiau ar gyfer phwrpasau plismona a lleihau niwed

5. Sicrhau bod iechyd tymor hir Heddlu Gogledd Cymru yn cael ei ddiogelu drwy fonitro cynllun a gweithgareddau adfer y sefydliad y tu hwnt i argyfwng Covid-19.

I weld y cynllun ymateb i Covid-19 cliciwch yma.




Dywedodd y CHTh bod y blaenoriaethau wedi bod yn llwyddiannus hyd yn hyn a bod ymateb positif Heddlu Gogledd Cymru, partneriaid o fewn y system Cyfiawnder Troseddol a'r Trydydd Sector wedi sicrhau cefnogaeth y cyhoedd i blismona.

Cadarnhawyd maes arall o lwyddiant yn ystod 2020 sef partneriaeth waith rhwng plismona yng Nghymru a Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu dros filiwn o bunnau mewn cyllid brys i gynnal nifer o Wasanaethau Trydydd Sector.

Aeth y Comisiynydd Heddlu a Throsedd i'r afael â'r pryderon yng nghyswllt y Bwrdd Bregusrwydd a Chamfanteisio sydd wedi cymryd lle Trais yn Erbyn Menywod a Cham-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) a Bwrdd Rhanbarthol Caethwasiaeth Fodern. Cynigodd y CHTh sicrwydd y bydd trais domestig a rhywiol yn aros yn flaenoriaethau ynghyd â phartneriaethau yn gweithio i fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern a masnachu pobl.

I gloi'r cyflwyniad pwysleisiodd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd y llwyddiannau dros y flwyddyn ddiwethaf sy'n cynnwys;

- Buddsoddi mewn adnoddau ychwanegol o fewn y ganolfan gymorth i rai sy'n dioddef o gaethwasiaeth fodern, rhaid sy'n dioddef troseddau casineb a'r rhai sy'n dioddef o broblemau iechyd meddwl.
- Cyflwyno camerâu corff i bob swyddog yn Heddlu Gogledd Cymru
- Gwasanaeth rhanbarthol IDVA newydd
- Mae Checkpoint Cymru bron yn flwydd oed ac eisoes yn dwyn ffrwyth gyda chanlyniadau positif
- Buddsoddiad mewn adnoddau ychwanegol ar gyfer y Tîm Troseddau Cefn Gwlad.






## Diane Jones Swyddog Comisiynu SCHTh

Canolbwyntiodd Diane Jones ar yr arian ychwanegol a dderbyniwyd i gefnogi gwasanaethau ar draws y rhanbarth. Ers mis Mawrth 2020, mae cyllideb y Weinyddiaeth Gyfiawnder a chyllideb VAWDASV wedi tyfu yn sylweddol, ac o ganlyniad mae'r cyllid hwn wedi galluogi gwasanaethau i barhau i gefnogi dioddefwyr bregus ar draws Gogledd Cymru. Pwysleisiodd Diane Jones bod pob gwasanaeth wedi bod y dan bwysau yn sgil terfynau amser tyn y gyllideb a'r angen i sicrhau bod yr arian yn cael ei wario a'i gyflwyno erbyn mis Mawrth 2021.

Roedd cyflwyniad Diane Jones hefyd yn cyfeirio at yr heriau y mae'r gwasanaethau wedi wynebu yng nghyswllt y pandemig Covid 19. Maent yn cynnwys gofynion riportio ychwanegol, dryswch yn ymwneud ag ariannu, terfynau amser byr ac anawsterau yn addasu i dechnoleg newydd a ffyrdd o weithio. Serch hynny er gwaethaf yr heriau, mae'r gwasanaethau wedi cynyddu effeithiolrwydd a chynhyrchiant yn ystod y pandemig ac wedi dangos hyblygrwydd drwyddi draw.

Rhoddodd Diane Jones drosolwg o'r cyllid i Strydoedd Diogelach y Swyddfa Gartref sydd wedi ei glustnodi ar gyfer dau brosiect yng Ngorllewin y Rhyl a Queensway, Wrecsam. Mae hyn er mwyn mynd i'r afael â byrgleriaeth a lladrata mewn mannau lle ceir llawer o droseddu.

Yn olaf pwysleisiodd Diane lwyddiannau'r gwasanaethau dros y flwyddyn ddiwethaf sy'n cynnwys gwobrau ar gyfer SARC am eu Prosiect Rhannu Straeon a DASU a dderbyniodd 'Go Award' am y gwasanaeth gorau yn y DU.




## Gaynor McKeown, DASU Gogledd Cymru a Gwyneth Williams Gorwel – Cytundeb Cynghori Annibynnol ar Gam-drin Domestig Rhanbarthol

Rhoddodd Gaynor a Gwyneth drosolwg o'r cytundeb Cyngor Annibynnol ar Drais Domestig (IDVA) sy'n cael ei gyflwyno gan DASU a Gorwel ar draws y 6 ardal awdurdod lleol. Mae'r gwasanaeth IDVA yn cynnig gwasanaeth arbenigol ar gyfer dioddefwyr risg uchel yng Ngogledd Cymru gyda sylw penodol ar reoli risg. Mae gwaith uniongyrchol IDVA gyda goroeswyr yn cynnig cyngor a chefnogaeth i sicrhau eu bod yn deall y dewisiadau sydd ar gael iddynt. Ers i'r gwasanaeth ddechrau fis Ebrill 2020 mae'r gwasanaeth IDVA wedi cefnogi dioddefwyr i gael gorchmynion atal, gorchmynion diogelu rhag stelcio, gorchmynion deiliadaeth a gorchmynion camau gwaharddedig. Yn ychwanegol i'r gwasanaeth mae'r gwasanaeth wedi cefnogi dioddefwyr i gael mynediad i gyngor cyfreithiol a materion yn ymwneud â chyswllt â phlant yn targedu caledi, banciau bwyd ac atgyfeiriadau ar gyfer cefnogaeth therapiwtig.

Pwysleisiwyd bod gwasanaeth IDVA rhanbarthol yn darparu dull cyson o gomisiynu a rheoli ac yn cynnig ymateb 24/7 i ddioddefwyr ar draws Gogledd Cymru. Cyn sefydlu'r gwasanaeth rhanbarthol roedd SCHTh yn ariannu ac yn rheoli 5 sefydliad ar wahân.

Yn olaf rhoddodd y darparwyr trosolwg o'u hymateb i Covid 19. Nodwyd bod pob cleient wedi bod yn derbyn galwadau dyddiol i sicrhau eu lles yn ogystal â chefnogaeth drwy gyfrwng Zoom ac wyneb yn wyneb pan mae'n ddiogel i wneud hynny. Mae'r ddau wasanaeth hefyd wedi derbyn arian i agor ac adnewyddu unedau lloches er mwyn cefnogi galw cynyddol oddi wrth gleientiaid.






## Anna Baker, Rheolwr Checkpoint Cymru

Roedd cyflwyniad Anna Baker yn pwysleisio ar Checkpoint a sut mae'r gwasanaeth wedi symud yn ei flaen yn y flwyddyn gyntaf. Mae Checkpoint yn gynllun dargyfeirio sy'n ceisio lleihau aildroseddu a gwella cyfleoedd bywyd. Cadarnhaodd Anna bod Checkpoint wedi addasu eu gwasanaeth er gwaethaf Covid 19 ac wedi parhau i gefnogi cleientiaid drwy alwadau ffôn ac asesiadau sydd wedi bod yn bositif gan fod rhai cleientiaid wedi bod yn fwy parod i siarad dros y ffôn. Mae'r cynllun dargyfeirio yn asesu anghenion pob unigolyn ac yn gwneud atgyfeiriadau perthnasol pan fo angen. Mae'n gweithio ar y cyd gydag asiantaethau amrywiol yn cynnwys DASU, Gorwel, Hafal, Cynllun Braenaru i Ferched, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Dechrau Newydd ac Adran Gwaith a Phensiynau.

Yn ei flwyddyn gyntaf mae Checkpoint wedi derbyn 527 dargyfeiriad ar draws Gogledd Cymru gyda'r rhan fwyaf o'r dargyfeiriadau yn ddynion 18-24 oed. Pwysleisiwyd mai'r drosedd fwyaf cyffredin oedd troseddau yn ymwneud â chyffuriau ac felly roedd 59% o unigolion wedi cwblhau'r Rhaglen Addysg Cyffuriau o gymharu â 41% sydd wedi cwblhau'r rhaglen Checkpoint.

Canolbwyntiodd Anna ar y camau nesaf ar gyfer y cynllun Checkpoint i gau ei chyflwyniad a oedd yn cynnwys ystyried bylchau mewn cefnogaeth e.e. gamblo, gwaith pellach yng nghyswllt cyfiawnder adferol, ehangu'r achosion cymhleth ac ystyried canfyddiadau gwerthusiad Prifysgol Bangor.


## Jim Henton a Peter Moorhouse, Dechrau Newydd

Cyflwyniad Dechrau Newydd oedd y cyflwyniad olaf yn ffocysu ar Wasanaeth Trin camddefnyddio sylweddau integredig Gogledd Cymru sy'n cael ei gyflwyno mewn partneriaeth â Kaleidoscope a Cais. Mae Dechrau Newydd yn cynnig dull o'r dechrau i'r diwedd oddi wrth ddargyfeiriadau at ddedfryd a thu hwnt. Mae hyn yn sicrhau arfer gorau a bod ymyriadau triniaeth effeithiol yn cael eu defnyddio i sicrhau ymgysylltiad a chynnal troseddwyr sy'n defnyddio cyffuriau mewn triniaeth. Mae hyn yn arbennig o bwysig i rai sydd wedi cael eu rhyddhau o'r carchar, rhai sy'n profi'n bositif wrth gael eu harestio a'r rhai sydd â chyfyngiadau ar eu hamodau mechnïaeth. Nodwyd bod dull Dechrau Newydd yn cynnig fframwaith o gefnogaeth i gleientiaid cyfiawnder troseddol am 14 wythnos cyn cael eu rhyddhau neu eu trosglwyddo i'r gwasanaethau cyffuriau craidd.

Pwysleisiodd Jim Henton yr heriau mae'r tîm wedi ei wynebu yn dilyn pandemig Covid 19. Mae tîm Dechrau Newydd wedi trechu heriau drwy ddefnyddio adnoddau dolen fideo, cefnogaeth ar y ffôn, pecynnau cefnogi ar-lein, allgymorth ac ymweliadau yn y cartref, fferylliaeth a chasgliad cymunedol a hefyd darparu llety ar gyfer y digartref.

Ers i'r prosiect ddechrau ym mis Ebrill mae Dechrau Newydd wedi derbyn 583 atgyfeiriad a 196 o lefydd wedi eu dyrannu.

I gloi, rhoddodd Peter Moorhouse drosolwg o arolwg Adenillion ar Fuddsoddiad Cymdeithasol wedi ei gwblhau ar gyfer Kaleidoscope. Yn dilyn adolygiad dywedodd 91% o gleientiaid eu bod yn teimlo bod eu bywyd o dan reolaeth a dywedodd 91% bod ganddynt gwell syniad o bwrpas.



## Sesiwn Holi ac Ateb

Isod ceir dadansoddiad o'r cwestiynau a ofynnwyd yn ystod ac yn dilyn y digwyddiad a'r ymatebion a roddwyd gan aelodau'r panel;

**Cwestiwn 1 – Beth ellir ei wneud gan SCHTh i wneud cynrychiolaeth i Wleidyddion am yr angen i gael llinellau amser addas wrth ddelio ag ariannu?**

Mae ariannu tymor byr y Llywodraeth bob amser wedi bod yn broblem i sefydliadau'r Trydydd Sector. Fodd bynnag, mae'r ansicrwydd ynghylch pandemig Covid 19 wedi golygu nad oes gan y Llywodraeth unrhyw ddewis arall ond darparu cyllid tymor byr. Nododd CHTh serch hynny bod pandemig Covid 19 wedi gwella'r berthynas rhwng Llywodraeth Prydain a Llywodraeth Cymru ym maes plismona. Mae cyfarfodydd rhwng CHTh, y Prif Gwnstabl, Llywodraeth Cymru, Gweinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Cartref yn digwydd yn rheolaidd. Cadarnhaodd CHTh bod ei allu i ddylanwadu wedi gwella ac os oes angen trafod materion yn ymwneud â phlismona gall unigolion drafod hyn yn uniongyrchol gydag ef.

**Cwestiwn 2 – Ydy eich gwasanaethau yn monitro cleientiaid ar gyfer nodweddion demograffig? Os felly, gawn ni weld y ffigyrau?**

Mae SCHTh yn cipio nodweddion demograffeg gan ein darparwyr bob chwarter er mwyn cwblhau enillion chwarterol i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a VAWDASV. Yn ddiweddar mae ein data chwarterol wedi cael ei hyrwyddo drwy eich sianeli cyfryngau cymdeithasol er mwyn dangos gwaith da ein gwasanaethau.

**Cwestiwn 3 – Ydy hi'n bosib rhoi disgrifiad byr o beth yw'r prosiectau Strydoedd Diogelach ychwanegol yn y Rhyl a Wrecsam?**

Menter gan y Swyddfa Gartref yw Strydoedd Diogelach sy'n anelu at fynd i'r afael â byrgleriaeth a lladrata mewn mannau ble mae troseddau yn broblem. Cyflwynwyd ceisiadau o Orllewin Rhyl a Queensway, Wrecsam gan fod ganddynt lefel uchel o droseddau caffaelgar ar draws y rhanbarth ynghyd â Thai Landlordiaid Cymdeithasol, Amddifadedd Incwm a phobl nad ydynt yn derbyn Addysg Uwch. Mae £1,067,000 wedi ei sicrhau er mwyn ariannu'r ddau brosiect. Bydd y prosiectau yn defnyddio'r arian i gynyddu caledi targedau yn ychwanegol at gryfhau adnoddau CCC a'r defnydd o dechnoleg ANPR i dargedu troseddwyr sy'n teithio a grwpiau troseddau trefnedig. Bydd y prosiectau hefyd yn nodi Pencampwyr Cymunedol fel rhan o'r Cynllun Gwarchod Cymdogaeth ynghyd â darparu cyngor atal troseddau o fewn y gymuned.

I gael ragor o wybodaeth yn ymwneud â chronfa Strydoedd Diogelach cysylltwch â Diane Jones drwy Diane.Jones3@nthwales.pnn.police.uk

**Cwestiwn 4 – Mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo mentrau i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb (ac yn enwedig anghydraddoldeb hiliol) ym maes addysg ac iechyd ac i leihau troseddau casineb. Mae'r mentrau hyn yn cael eu cymeradwyo a'u cefnogi gan sefydliadau lleiafrifol a'r trydydd sector. Mae HGC yr un mor ymrwymedig. Ble gallwn ni weld y gofidion ac ymrwymiadau wedi adlewyrchu yn benodol ym mlaenoriaethau CHTh?**

Mae Troseddau Casineb yn rhan o flaenoriaeth Cyflawni Cymdogaethau Mwy Diogel yng Nghynllun Heddlu a Throsedd y Comisiynydd. Mae'r CHTh yn cael cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Prif a'r Uwch Dîm Rheoli er mwyn codi ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb a'r angen i wneud mwy. Mae Cynllun Ymgysylltu ar hyn o bryd yn cael ei baratoi er mwyn cynyddu ymgysylltiad gyda dioddefwyr Troseddau Casineb yn cynnwys Dioddefwyr LHDT a Dioddefwyr Anabl.



**Cwestiwn 5 – Ydych chi yn meddwl pe tasai plismona a chyfiawnder wedi datganoli mi fuasem yn gallu gwasanaethu pobl sy'n byw yng Nghymru yn well? Mae'n drist clywed y buasai'n rhaid i bob merch sy'n byw yng Nghymru orfod mynd i'r carchar dros y ffin.**

Mae CHTh yn credu na ddylai'r rhan helaeth o ferched fod yn y carchar gan fod y merched o fewn CEM Style yno am droseddau lefel isel, di-drais. Mae CHTh o'r farn y dylai mwy o Ganolfannau Merched fod ar gael ar draws y rhanbarth er mwyn cefnogi merched. Mae Gwasanaethau Prawf Carchardai Ei Mawrhydi a Gwasanaeth y Llysoedd yn gweithredu mewn amgylched ddatganoledig ac felly mae sefydliadau yn gwneud yr hyn y maent yn gallu o fewn yr amgylchedd hwn i gefnogi unigolion.

**Cwestiwn 6 – Sut gall rhywun gael mynediad i bresgripsiwn fferyllfa drwy Dechrau Newydd?**

I gael ragor o wybodaeth yn ymwneud â Dechrau Newydd a'r llwybrau presgripsiwn cysylltwch â Jim Henton drwy Jim.Henton@dechraunewydd.co.uk

## Atodiad A – Sefydliadau yn Bresennol

Authentic Voices

AVOW

BAWSO

CAIS

Cyngor ar Bopeth

Cymorth Merched Clwyd Alyn

Cefnogi Pobl Conwy

Sector Wirfoddol Conwy

Crimestoppers

CWYVS

DASU Gogledd Cymru

Dechrau Newydd

Gorwel

Groundwork Gogledd Cymru

Hafal

Hafan Cymru

Cychwyn cartref

Mantell Gwynedd

Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol

Gogledd Cymru (NWREN)

PACT HGC

Aelodau o’r Panel Heddlu a Throsedd

Gwasanaeth Prawf

Rainbow Bizz

RASASC

Red Snapper


Stepping Stones

Street Games

Cymorth Dioddefwyr

# Atodiad B – Cyfryngau Cymdeithasol

Drwy gydol y digwyddiad gwnaethom ddefnyddio'r hashnodau **#TrydyddSector2019** a **#ThirdSector2019** gan annog y rhai oedd yn bresennol i drydar. Isod mae enghreifftiau o gyhoeddiadau Twitter o'r digwyddiad;












North Wales PCC @NorthWalesPCC · Nov 19
OPCC Commissioning Manager Diane Jones is our first speaker and explains the work made over the past year to support our commissioned services, including funding, and how adjustment has been made to ensure that reporting has been done sufficiently.
Challenges for Services
Confusion around funding
Reporting requirements
Governance
Timescales
Lone / Remote working
Technology – Virtual meetings and training
1
1


North Wales PCC @NorthWalesPCC · Nov 19
Gaynor McKeown, DASU and Gwyneth Williams, Gorwel are our next speakers - explaining the work of the Domestic Abuse Safety Unit in North Wales as well as Gorwel, a project that supports people at risk of losing their homes as a result of domestic abuse.
Trais Teuluol Gogledd Cymru
fety Unit North Wales (DASU)
Gorwel
1
2


North Wales PCC @NorthWalesPCC · Nov 19
Our next speaker is Anna Baker, Checkpoint Cymru Manager, chronicling the first year of the programme's progression and adaptions in light of the pandemic.
Checkpoint Cymru aims to provide a credible alternative to prosecution, by identifying and supporting relevant needs.
Lleihau aildroseddu a gwella cyfleoedd bywyd
Reducing reoffending and improving life chanc
Sut yr ydym wedi mynd ati i wneud hyn?
How have we gone about undertaking this?
1
3
3

@NorthWalesPCC

www.nwpcc.cymru

SWYDDFA **COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD** GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE **POLICE & CRIME COMMISSIONER** NORTH WALES